



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 Medi 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Calendr Cyfarfodydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar y rhaglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

2.0 Cefndir

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1, cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Nodwyd yr angen am gyfarfod ychwanegol ym mis Hydref.

3.2. Nodwyd y byddai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 14 Chwefror 2018 yn cyd-daro ag wythnos hanner tymor, ac felly bod angen ail drefnu'r cyfarfod.

3.3 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1.1 Gymeradwyo'r cyfarfodydd diwygiedig fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

9.0 Atodiadau

Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2017/18

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylw o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf fydd rhaid trefnu cyfarfod o Gydbwyllgor GwE yn ystod Gorffennaf 2018 ar gyfer derbyn cyfrifon cyn-archwiliad 2017/18, ac hefyd ym Medi 2018 ar gyfer derbyn a chymeradwyo adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfrifon 2017/18, sy'n statudol orfodol cyn 30 Medi.

Atodiad 1:

Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2017/18

CYFARFOD	DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD
Cyd-Bwyllgor GwE	22/09/2017	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	04/10/2017	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	22/11/2017	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	(dyddiad newydd) 21/02/2018	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	23/05/2018	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn